# Disgrifiad Swydd
# Rheolwr Iechyd a Diogelwch
**Mae'r holl feini prawf yn <u>hanfodol</u> oni nodir fel arall**

**Yn atebol i'r canlynol:** Rheolwr Cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch

**Yn gyfrifol am y canlynol:** Amherthnasol

**Diben cyffredinol y swydd:** Cynorthwyo'r Rheolwr Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig ac Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod Barcud yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, rheoleiddiol, cyfreithiol a moesol am iechyd a diogelwch ei staff, ei gontractwyr mewnol, ei breswylwyr a'r sawl sy'n ymweld â nhw. Hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a diogelwch ar draws pob un o feysydd cymdeithas dai Barcud.

Bydd deiliad y swydd eisoes wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig ym maes iechyd a diogelwch (e.e. Diploma Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, neu radd MSc. neu BSc. mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol).

**Cyfrifoldebau Cyffredinol**

- Gweithredu o fewn Gweithgor Cydymffurfio'r Landlord a'r Gweithgor Iechyd a Lles Gweithwyr i ddarparu cyngor a chymorth strategol ynghylch iechyd a diogelwch yng nghyswllt pob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, a hynny i'r tîm gweithredol, penaethiaid gwasanaeth, rheolwyr, swyddogion a staff gweithredol.
- Cynorthwyo gydag adolygiadau o bolisi ac arwain adolygiadau o weithdrefnau yng nghyswllt iechyd a diogelwch.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch i adolygu darpariaethau a gweithgareddau iechyd a diogelwch ar draws Barcud. Cyflwyno gwelliannau a chynorthwyo i ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu ar draws meysydd gwasanaeth Barcud.
- Cynorthwyo Barcud i gyflawni ei gyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chydymffurfio, ac i ragori ar y cyfrifoldebau hynny, gan gynnwys ym maes asesiadau risg y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai; diogelwch tân; diogelwch trydanol; y Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi; gwresogi; legionella; ac asbestos, ymhlith meysydd eraill.
- Cynghori ynghylch ystod o feysydd arbenigol, e.e. rheoliadau tân, sylweddau peryglus, sŵn, peiriannau diogelu a chlefydau galwedigaethol.

- Bod yn gyfrifol am adnabod a datrys achosion o fethu â chydymffurfio, gan gadw cofnodion a data priodol ynghylch pob achos o'r fath.
- Cynnal asesiadau risg ac ystyried sut y gellid lleihau risgiau, gan amlinellu gweithdrefnau gweithredu diogel sy'n adnabod ac yn ystyried pob perygl perthnasol.
- Cynnal ymchwiliadau'n dilyn damweiniau, neu ddamweiniau fu bron â digwydd, i aelodau o staff, preswylwyr neu gontractwyr mewnol. Cofnodi'r canfyddiadau, adrodd yn eu cylch wrth y tîm rheoli ac, os oes angen, adrodd yn eu cylch wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan y Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.
- Cynorthwyo swyddogion cynnal a chadw i sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion, ac y caiff gwasanaethau adeiladu eu darparu i safon uchel o ran iechyd a diogelwch, sy'n cynnwys arolygu ac archwilio safleoedd o safbwynt iechyd a diogelwch.
- Cynorthwyo i gael pob cymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer rhaglenni gwaith adeiladu arfaethedig, megis cymeradwyaeth sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli), iechyd a diogelwch, a chontractwyr.
- Arolygu ystadau ac archwilio gwaith adeiladu a chydymffurfio, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.
- Darparu cyngor, hyfforddiant a chymorth arbenigol i staff ynghylch materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, a chyfrannu i'r agenda ehangach o ran rheoli risg.
- Goruchwylio staff penodedig.

*Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.*

# Manyleb Person

## Rheolwr Iechyd a Diogelwch

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

**Cymwysterau**

- Cymhwyster cydnabyddedig ym maes iechyd a diogelwch (e.e. Diploma Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch, neu radd MSc. neu BSc. mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, ac ati).
- Cymhwyster HNC/D mewn Astudiaethau Adeiladu neu gymhwyster cyfwerth yn ymwneud ag adeiladu. (D)
- Yn aelod o gorff proffesiynol perthnasol.
- Wedi cael addysg i lefel Safon Uwch neu lefel gyfwerth. (D)
- Tystiolaeth o brofiad o weithio ym maes iechyd a diogelwch mewn amgylchedd sy'n datblygu yn gyflym ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Tystiolaeth bod gwybodaeth broffesiynol yn cael ei datblygu'n barhaus.

**Profiad**

- Hanes o gyflwyno rhaglenni Cydymffurfio yn llwyddiannus.
- Profiad o fonitro rhaglenni gwaith mawr ac o ddatrys problemau wrth iddynt godi.
- Profiad o fonitro ansawdd darparwyr gwasanaeth.
- Profiad o ddadansoddi problemau a llunio atebion effeithiol.
- Profiad o ddarparu cyngor am faterion ym maes Cydymffurfio, ar sail cyd-destun proffil stoc y sefydliad.
- Profiad o gaffael gwasanaethau gan ddarparwyr ar gyfer gweithgareddau Cydymffurfio.
- Profiad o oruchwylio cronfeydd data a chofnodion sy'n ymwneud â gweithgareddau Cydymffurfio.
- Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu i gymdeithas dai. (D)

**Sgiliau / Gwybodaeth**

- Dealltwriaeth drylwyr o ddeddfwriaeth ynghylch iechyd a diogelwch a rheoliadau'n ymwneud â Chydymffurfio.
- Y gallu i ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol ag achosion lle na chydymffurfir â gofynion o ran iechyd a diogelwch.
- Gwybodaeth am iechyd a diogelwch, gan gynnwys am reoli asbestos.
- Ymwybyddiaeth o dechnegau adeiladu.

• Gwybodaeth dda am ofynion safonau technegol sy’n ymwneud â chyflwr eiddo preswyl.
• Y gallu i gynhyrchu adroddiadau cynhwysfawr o safon er mwyn gallu gwneud penderfyniadau’n effeithiol.
• Yn barod i ddysgu Cymraeg i ALTE lefel 3 cyn pen 2 flynedd (i’r sawl nad yw’n siarad Cymraeg yn barod).
• Y gallu i sicrhau canlyniadau o fewn terfynau amser tynn a than bwysau.
• Sgiliau TG ardderchog.
• Sgiliau cadarn o safbwynt trafod rhifau, rhesymu, a chyfathrebu ysgrifenedig.
• Gallu amlwg i ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol a sensitif.
• Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol i’w hun.
• Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
• Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog er mwyn esbonio prosesau iechyd a diogelwch i amrywiaeth o bobl a rhoi cyflwyniadau i grwpiau.
• Sgiliau trafod er mwyn argyhoeddi rheolwyr ynghylch yr angen i gyflwyno a chynnal safonau diogelwch.
• Y gallu i fod yn amyneddgar ac yn ddiplomatig mewn amgylchedd gweithio proffesiynol.
• Y gallu i roi sylw i fanylion.
• Agwedd hyblyg at waith.
• Trwydded yrru – yn hanfodol ar gyfer swyddi sy’n golygu teithio o’r naill safle i’r llall.